



Gwers 32

Merch Jairus



Cyfres Stori Duw

Luc 8: 40–42, 49–56 • • • • • • • • • •

Nod:

Deall bod yr Iesu'n drech nag angau, yn gryfach na marwolaeth.

Adnodau:

Luc 8: 40–42, 49–56

Gweithgaredd:

Fe fydd y wers heddiw yn delio â themâu difrifol iawn. Er mwyn gosod y nawys cywir, a gwneud yn siŵr nad ydi'r bobl ifanc yn cymryd pethau'n rhy ysgafn, fe ddylai'r gweithgaredd hwn fod o gymorth.

Fe fydd angen papurau newydd a sisyrnau arnoch. Gofynnwch i'r dosbarth dorri pob stori sy'n cynnwys, dioddefaint, marwolaeth, newyn ayb allan.

Dechreuwch sgwrs gyda'r dosbarth yn trafod y straeon hyn, pwysleiswch fod dioddefaint, salwch a marwolaeth o'n cwmpas ni bob dydd.

Darllen yr adnodau: gellir darllen yr adnodau fel grŵp neu gall pob aelod o'r dosbarth ddarllen adnod yn eu tro. Cyn darllen, gofynnwch i'r dosbarth nodi sawl gwaith y defnyddir y gair 'paid' neu 'peidiwch' yn y darn.

Trafod:

Mae'r testun hwn yn gallu bod yn un sensitif a dylech wybod rhywfaint o gefndir y bobl ifanc, rhag ofn fod rhywun agos atynt wedi marw'n ddiweddar.

Gofynnwch i'r dosbarth drafod sut brofiad yw colli rhywun neu ddychmygu sut mae rhywun yn teimlo o golli aelod o'r teulu. Dylech lywio'r sgwrs fel bod pawb yn cael cyfle i ddweud rhywbeth.

Pa mor aml y defnyddir 'paid' neu 'peidiwch'?

Nodi: (1) "Paid â phoeni'r athro bellach." (2) "Paid ag ofni." (3) "Peidiwch ag wylo."

Gwers:

Mae'r Iesu eisiau inni Ei 'boeni', hynny yw mynd ato i drafod pob peth: pethau mawr fel colli rhywun agos a phethau bach fel brifo pen–glin neu rannu hapusrwydd gydag Ef. Mae Ef eisiau inni rannu popeth gydag Ef, yn union fel y gwnawn gyda'n ffrindiau.

Wrth inni wynebu problemau a thrafferthion mawr yn ein bywydau, mae'r Iesu'n dweud wrthym am beidio â phoeni. Mae Ef gyda ni bob cam o'r daith drwy fywyd. Pan mae pethau drwg yn digwydd, er enghraifft pan gollwn rywun da ni'n hoff iawn ohono/ohoni, mae'r Iesu'n dweud wrthym am beidio ag wylo. Bydd pawb sy'n caru'r Iesu'n mynd ato i fyw yn y nefoedd. Trwy godi merch Jairus, mae'r Iesu'n dangos i ni y bydd yn gwneud yr un peth i bawb sy'n credu ynddo.

Gweithgaredd:

Er mwyn ceisio gwneud yr awyrgylch ychydig yn ysgafnach ar ôl y drafodaeth ddifrifol, chwaraewch y gêm ganlynlod;

Fe fydd angen 5 neu 6 rôl o bapur toiled. Cyn dechrau'r gêm atgoffwch bawb ein bod wedi

gweld Crist heddiw, fel dyn gwyrthiol. Mae'n cael ei alw gan rai yn feddyg da. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp, gan ofyn iddynt enwebu un person i fod yn glaf. Mae gweddill aelodau'r grŵp i fod yn feddygon, rhaid iddynt lapio'r claf mewn rhwymyn (bandage) o'i gorun i'w sawdl. Wedi amser penodol gwaeddwch 'stop', ac yna gwobrwo'r tîm sydd wedi llwyddo i orchuddio'r claf orau.

Amser addoli:

Mae Iesu Grist yn cynnig ei hun fel mwy nag un sy'n cyflawni gwyrthiau, mwy hefyd na meddyg da. Mae'n cynnig ei hun fel yr un a all roi gobaith i ni mewn sefyllfaoedd anodd, yr un a all ein cysuro. Gofynnwch i'r bobl ifanc droi at Mathew 11:28 'Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi'.

Gofynnwch i'r bobl ifanc weddïo am unrhyw rai y maent yn eu hadnabod sy'n mynd drwy gyfnod anodd ar hyn o bryd, efallai bod rhywun yn sâl, wedi colli rhywun agos, neu'n cael amser caled yn yr ysgol. Gallant wneud hyn yn ddistaw os dymunant, a gweddiwch chi ar lafar i gloi.